



Adroddodd y Maer iddi gyfarfod chwech o fyfyrwyr celfyddyd dylunio yn ddiweddar o Brifysgol Goldsmiths yn Llundain, pan roeddynt yn ymweld â'r Rhyl i weithio ar eu prosiect ailgymysgu diwylliant, gan gyfuno diwylliannau Tsieineaidd a Gorllewinol.

Roedd y myfyrwyr wedi rhoi anrheg iddi, sef drych wedi ei fframio a theilsen Mahjong yn y canol yn symboleiddio'r ddau ddiwylliant.

Dywedodd y Maer y byddai'r anrheg yn cael ei arddangos ym Mharlwr y Maer.

### 37. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MEHEFIN 2019**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr                             | Swm £             | Disgrifiad o Nwyddau a Gwasanaethau                        |
|------------|--|-------------------|--|
| 762        | BT   | 128.16            | Gwasanaethau Rhynggrwyd                                    |
| 763        | HSBC                                       | 25.94             | Taliadau Banc  |
| 766        | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,290.48          | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mai 2019             |
| 765        | HMRC                                       | 2,743.11          | Didyniadau PAYE Mai 2019                                   |
| 764        | Gunsmoke Communications                    | 1,440.00          | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Mai 2019                       |
| 767        | Staff Cyngor Tref y Rhyl                   | 7,149.52          | Cyflogau Staff Mehefin 2019                                |
| 716        | Cyngor Sir Ddinbych                        | 723.00            | TANC ar gyfer Swyddfeydd Ffordd Wellington - Taliad 3 o 10 |
| 723        | Siop Cyngor Fudd-daliadau                  | 916.67            | Swyddog Apeliadau Rhan-amser 19/20 Taliad 3 o 12           |
| 777        | BT   | 175.87            | Costau Rhentu  |
|            | <b>Cyfanswm Taliadau</b>                   | <b>£17,592.75</b> |  |

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

### 38. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (rhestr o daliadau anrheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr cyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol ar gyfer eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (13eg Mehefin – 9fed Gorffennaf 2019)*

| <b>Cyflenwr</b>                                       | <b>Manylion Cyflenwi</b>                                      | <b>Rhif Taleb</b> | <b>Swm £</b>      |
|---|---|-------------------|-------------------|
| Y Cyngh D King  | Treuliau a hawliwyd ar gyfer Cymorth Maer Mai 2019            | 780               | 139.18            |
| Gwasg.com Print (Gwasg Helygain)                      | Tafenni ar gyfer Sadwrn y Sycas 13 Gorffennaf 2019            | 781               | 273.00            |
| Rhyl Steam Preservation Trust                         | Premiwm Yswiriant ar gyfer Billy a Phlât Enw                  | 782               | 122.00            |
| Phoenix Performers                                    | 2 x Docyn ar gyfer Digwyddiad Ynys Drysor 5ed Gorffennaf 2019 | 783               | 14.72             |
| Pottles Premier Plants                                | Planhigion gwelyau blodau (Atodlenni 1 i 5) 2019/20           | 784               | 10,734.74         |
| Cyngor Sir Ddinbych                                   | CLG Cynnal a Chadw Tiroedd 2019/20                            | 787               | 36,572.04         |
| Cyngor Sir Ddinbych                                   | CLG Gerddi Coffa 2019/20                                      | 788               | 6,613.19          |
| Bernie's Miles of Smiles                              | Peintio wynebâu ar gyfer Sadwrn y Sycas 13 Gorffennaf 2019    | 789               | 150.00            |
| Barry Hamilton  | Fotograffau ar gyfer Sefydlu'r Maer Mai 2018                  | 790               | 110.00            |
| Barry Hamilton  | Ffotograffau ar gyfer Sefydlu'r Maer, Mai                     | 791               | 120.00            |
| Cyngor Sir Ddinbych                                   | Ardal Gwella Busnes (BID) Lefi 18/19                          | 792               | 23.36             |
| Cyngor Sir Ddinbych                                   | Ardal Gwella Busnes (BID) Lefi 19/20                          | 793               | 251.71            |
| Y Cynghllr E Chard                                    | Treuliau Maer Mehefin 2019                                    | 794               | 93.40             |
| J E Hughes T/A Magico                                 | Pwnsh a Jiwdi ar gyfer Sadwrn y Sycas 13 Gorffennaf 2019      | 795               | 150.00            |
| Mrs V Reed T/A Fun Faces                              | Peintio wynebâu ar gyfer Sadwrn y Sycas 13 Gorffennaf 2019    | 796               | 150.00            |
| Amazon  | Hidlwyr Dwr   | 797               | 14.99             |
| Butteez   | Arlwyo ar gyfer Sul Dinesig 14eg Gorffennaf 2019              | 798               | 297.60            |
| Cyngor ar Bopeth                                      | Cynllun Ailgylchu Gwisgoedd Ysgol                             | 799               | 2,000.00          |
| Homestart Sir Ddinbych                                | Prosiect Ymddygiad y Rhyl                                     | 800               | 2,000.00          |
| Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | 2 x Ginio ar gyfer Cyfarfod 19 Gorffennaf 2019                | 802               | 32.00             |
| <b>Cyfanswm Atodlen B</b>                             |   |                   | <b>£59,861.93</b> |

*a chymeradwywyd yr ychwanegiad canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:*

- Butteez – arlwyo ar gyfer Sul Dinesig

**39. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN GWAHARDD AROS: GRANGE ROAD A PARK DRIVE, Y RHYL.**

Cyfeiriodd y Maer at y gorchymyn traffig uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) er mwyn i'r Cyngor Tref ystyried ei ymateb.

Teimlai'r cynghorwyr y byddai'r gorchymyn yn gwella gwelededd yn y groesfan a gwneud y llwybr i'r ysgol yn ddiogelach.

**PENDERFYNWYD** derbyn y gorchymyn.

40. **YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN GWAHARDD AROS – FFORDD CHURTON, BRIGHTON ROAD, THE GROVE A PHARC HIGHFIELD, Y RHYL.**

Cyfeiriodd y Maer at y gorchymyn traffig uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) er mwyn i'r Cyngor Tref ystyried ei ymateb.

Dywedodd cynghorydd bod hyn yn newyddion gwych a bod ei angen ers amser maith.

**PENDERFYNWYD** derbyn y gorchymyn.

41. **YMGYNGHORIAD: COMISIWN DEMOCRATIAETH LEOL A FFINIAU AR GYFER CYMRU - AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR DDINBYCH**

Ymhellach i gofnod rhif 74 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2017, cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod (copi o'r tudalennau a oedd yn ymwneud â'r Rhyl wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen), ac adroddodd bod cyflwyniadau'r Cyngor Tref wedi cael cefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych ac wedi eu cytuno gan Lywodraeth Cymru, sef y dylid rhannu ward sirol De-ddwyrain y Rhyl yn ddau gyda dau gynghorydd sir yn cynrychioli pob un. Ar hyn o bryd, cynrychiolir y ward gyfan gan dri chynghorydd.

Diolchodd y cynghorwyr i Glerc y Dref am gyflwyno ymateb cynhwysfawr ar ran y Cyngor Tref.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

42. **YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – AROLWG O ORSAFOEDD PLEIDLEISIO**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a dywedodd bod awgrym wedi ei wneud i newid yr orsaf bleidleisio yn ward sirol De-ddwyrain y Rhyl (ward Tynewydd y Cyngor Tref) o Ganolfan Hamdden y Rhyl i Glwb Rygbi newydd y Rhyl.

Dywedodd cynghorydd bod dryswch parhaus i drigolion Parc Bruton gan fod angen iddynt bleidleisio mewn dwy orsaf bleidleisio wahanol, yn dibynnu ar a oedd yr etholiad yn etholiad tref neu sir.

Adroddodd Clerc y Dref bod Mr Steve Price o'r Cyngor Sir yn edrych ar y mater, sy'n bennaf yn effeithio dwy stryd yn y ward.

Roedd cynghorwyr y ward yn awyddus i drigolion gael lleisio barn.

Dywedodd Clerc y Dref bod yr ymarfer yn ymgynghoriad cyhoeddus, felly roedd gan drigolion gyfle i leisio barn.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr yngynghoriad.

**43. GWYBODAETH: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033: YMGYNGHORIAD AR Y STRATEGAETH DDRAFFT A FFEFRIR**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod er gwybodaeth i'r Cyngor Tref (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

**PENDERFYNWYD** *derbyn yr wybodaeth.*

**44. EITEM GAN AELOD: FFRYDIO CYFARFODYDD Y CYNGOR TREF YN FYW**

Oherwydd absenoldeb y Cynghorydd J. Ball, awgrymodd yr aelodau y dylid gohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** *gohirio'r eitem.*

**45. EITEM ER GWYBODAETH: SIOE AWYR A THAFLENNI GWYL ARENA**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y blychau o daflenni a ddosbarthwyd i'r swyddfa'n ddiweddar i'r cynghorwyr fynd gyda nhw i'w dosbarthu yn eu wardiau.

**46. HOLI AC ATEB**

Gofynnodd Edna Schofield a Margaret Gough pam y bu cyn lleied o waith cynnal a chadw yng Nghanolfan Gymunedol Tynewydd, ym meddiant y Cyngor, ers pan ail-osodwyd y llawr pren yn 2006 a gosod boeler newydd yn 2008?

**47. EGWYL MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dirpwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r cadeiryddion priodol yn ystod egwyl mis Awst, fel a ganlyn:

Materion Dinesig - Maer a/neu'r Dirprwy Faer

Materion Cynllunio - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Pwyllgor CSG - Cadeirydd a/neu Ddirprwy-gadeirydd y Pwyllgor CSG

Unrhyw Fusnes Arall - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

**PENDERFYNWYD** *cadarnhau'r trefniadau.*

**48. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod wrth ystyried yr eitemau canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**49. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL**

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor CSG ( a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau:

Pwyllgor CSG - 8fed Ebrill 2019 - Rhifau Cofnod 74-81

Pwyllgor CSG - 13eg Mai 2019 - Rhifau Cofnod 82-87

**PENDERFYNWYD** *derbyn y cofnodion.*

**50. PWYLLGOR CSG – GWARIANT AR WASANAETHAU A GOMISIYNWYD**

Adroddodd Clerc y Dref bod y Pwyllgor CSG yn ddiweddar wedi argymhell bod y Cyngor Tref yn darparu cyllid ar gyfer dwy fenter yn ystod blwyddyn ariannol 2019/2020, sef:

- (i) Homestart Sir Ddinbych - £2,000
- (ii) Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych (ailgylchu gwisgoedd ysgol) - £1,000

Dywedodd Clerc y Dref ymhellach bod y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau wedi sicrhau cyllid ar gyfer y tair blynedd nesaf, gan ddefnyddio £8,000 o arian y Cyngor Tref fel cyllid cyfatebol.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) *Cymeradwyo argymhellion y pwyllgor*
- (ii) *Anfon llythyr o longyfarchiadau i'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau*

**51. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: .....

Dyddiad: .....